**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 21 Medi 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | M Durke |
| Y V Jardine | W G Lewis | D W W Thomas |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Tom Jones | Swyddog Cyfranogiad a Hawliau Plant |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Kate Ronconi | Prif Weithiwr Cymdeithasol |
| Gemma Whyley | Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): K M Griffiths, S M Jones a/ac E T Kirchner
Swyddog(ion): David Howes

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Awst 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau Gan y Cyhoedd

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Y cynnydd ar Raglen Gwella Plant a Theuluoedd

Daeth Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gemma Whyley, Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid i friffio'r Panel ar yr eitem hon.

Pwyntiau i'w trafod:

- Dywedodd swyddogion fod y Gwasanaeth wedi ailedrych ar ei weledigaeth.
- Teimlai'r Panel fod y cyfan yn swnio'n gyffrous iawn ac yn rhyddhau staff i wneud y gwaith go iawn yn hytrach na gwaith papur.
- Holodd y Panel a yw'r Gwasanaeth yn dechrau pylu'r gwahaniaeth rhwng rolau'r uwch-weithwyr cymdeithasol a staff profiadol iawn eraill. Clywodd y Panel fod yn rhaid i weithwyr cymdeithasol wneud tasgau penodol ond y gall staff sydd â chymwysterau amgen weithio o gwmpas hynny.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch sgyrsiau â Llywodraeth Cymru am faint o wybodaeth sydd ei hangen arnynt, er enghraifft, y data perfformiad newydd y gofynnir amdano.

6 **Cyflwyniad - Y Diweddaraf am y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol**

Daeth Gemma Whyley, Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid a Tom Jones, Swyddog Cyfranogiad a Hawliau Plant i gyflwyno'r eitem hon, a oedd yn cynnwys fideo a wnaed gyda phlant sy'n derbyn gofal, ymateb y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol i'r fideo ac addewidion dilynol gan aelodau'r Bwrdd Magu Plant Corfforaethol.

Pwyntiau i'w trafod:

- Teimlai'r Panel fod materion yn dod ar draws yn well wrth wrando ar blant yn siarad drostynt eu hunain. Mae'n gwneud i chi dalu sylw a gwrando.
- Mae pob cynghorydd yn llywodraethwr ysgol ac mae hyn yn rhoi cyfle iddynt holi'r Pennaeth a'r uwch-dîm rheoli ynghylch pa addysg a gofal sy'n cael eu darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion.
- Dywedodd y Panel eu bod wedi derbyn gwybodaeth yn y gorffennol am gynnydd pobl ifanc, yn enwedig ym maes addysg, fel rhan o'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol. Gofynnodd y Panel am ddata cymharol ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal o'i gymharu ag eraill i weld ble maent yn awr.
- Dywedodd swyddogion fod angen gwneud gwaith ar sut i wella'r cyfle dysgu i blant sy'n derbyn gofal. Mae rhywfaint o atebolrwydd ynghlwm wrth yr addewidion a wnaed gan aelodau'r Bwrdd Magu Plant Corfforaethol.
- Nododd y Panel fod gwaith y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau yn canolbwyntio'n gryf ar addysg alwedigaethol a chwricwlwm amgen/priodol. Bydd yn trafod yr hyn sy'n gweithio i blant sy'n derbyn gofal sy'n gwneud yn dda mewn addysg.
- Roedd y Panel yn falch o'r berthynas waith dda rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

Camau Gweithredu:

- Caiff data ei ddarparu i'r Panel ar gynnydd plant sy'n derbyn gofal mewn addysg o'i gymharu ag eraill.

7 **Amserlen y Rhaglen Waith ar gyfer 2021-22**

Ystyriwyd y rhaglen waith gan y panel.

8 **Gwahardd y Cyhoedd**

Pleidleisiodd y Panel a chytunodd i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitem 10, am ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig. Paragraff 12 yw'r paragraff perthnasol ym mhrawf budd y cyhoedd.

9 **Fideo Ymholiad Gwerthfawrogol**

Trafododd y Panel yr eitem mewn sesiwn gaeedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm